

---

**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C**  
12 Mehefin 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

**Cyfarfod Rhif 377**

---

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)

## 1. **Sylwadau agoriadol a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod a gofynnodd a oedd unrhyw ddiddordebau ym musnes y cyfarfod i'w datgan.

Nododd AE ei aelodaeth o Bwyllgor Ymgynghorol Nominet a nododd RhT ei fod yn drysorydd yr Urdd. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau eraill.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

## 2. **Cofnodion cyfarfod 376 (15.05.14) a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 376

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

## 3. **Materion yn codi**

### 3.1 **Adleoli**

[**Crynodeb:** Diweddarwyd yr Awdurdod ar faterion yn ymwneud â'r Adleoli.]

### 3.2 **Cyhoeddiad ynglŷn â lleoliad BBC Cymru.**

Nododd IHJ fod y BBC wedi cyhoeddi eu bwriad i adleoli i adeilad newydd y tu allan i orsaf rheilffordd Caerdydd. Prin oedd unrhyw gyfeiriad at S4C yn y sylw gafodd y cyhoeddiad.

### 3.3 **Penodiadau – Aelodau'r Awdurdod.** Adroddodd HJ nad oedd unrhyw newyddion pellach ar y mater.

### 3.4 **Adroddiad Blynyddol** - diweddariad.

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar yr Adroddiad Blynyddol a thrafodwyd amserlen paratoi'r Adroddiad.]

### 3.5 **Adroddiad yr Adran Ddadansoddi**

Cafwyd trafodaeth am natur a chynnwys yr Adroddiad Dadansoddi a gofynnodd IHJ am arweiniad a oedd yr aelodau am dderbyn adroddiad chwarterol yntau misol?

Atebodd HJ mai'r dymuniad oedd i'r cwestiwn yma gael ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth ynglŷn â gweithdrefnau'r Awdurdod ac mai'r disgwyliad oedd derbyn a thrafod yr argymhellion ynglŷn â hyn oll yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

### 3.6 **Pobol y Cwm**

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad am sefyllfa Pobol y Cwm a'r defnydd o'r arbedion.]

### 3.7 **Defnydd o Arbedion Ariannol**

[**Crynodeb:** Yn dilyn trafodaethau mewnol cytunwyd ar sut i glustnodi rhan o'r arbedion.]

Cymeradwyodd yr Awdurdod yr argymhellion ar gyfer clustnodi'r arbedion ariannol.

## 4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriwyd at y materion canlynol:

### 4.1 **Cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth y BBC**

[**Crynodeb:** Yn y cyfarfod cafwyd trafodaeth am is-deitlau agored.]

Holwyd pa fath o gwestiynau a godwyd yn ymwneud â materion ieithyddol a statws yr iaith. Eglurodd HJ fod rhai o aelodau'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am fwy o ddealltwriaeth o gyd-destun ieithyddol y Gymraeg ac na fu cyfeiriad penodol at ieithoedd Celtaidd

eraill. Roedd un aelod wedi awgrymu mai S4C oedd yr unig sianel iaith leiafrifol nad oedd yn cynnig is-deitlau agored.

[**Crynodeb:** Trafodwyd polisiau'r BBC i greu gofod ar gyfer cyfresi newydd ac addaswydd hyn i S4C. Mewn ymateb i gwestiwn ganddynt eglurodd IHJ fod blaenoriaethau comisiynu yn gallu arwain at fwy o oriau drud mewn un genre a mwy o oriau rhad mewn un arall. Gall hyn arwain at ffigwr cyfartaledd sy'n ymddangos fel toriad uwch na thoriad incwm S4C.]

Roedd AE a MWJ o'r farn fod y cyfarfod wedi bod yn un da a buddiol, a bod y trafod wedi bod yn agored ac onest.

#### 4.2 **Dogfen Ariannu Digonol – cyflwyniad gan IHJ yn Eisteddfod yr Urdd**

Nododd GLL fod ymateb cadarnhaol wedi bod yn y wasg. Nododd IHJ mai'r cwestiwn cyntaf yn yr holl gyfweiliadau oedd 'beth sy'n ddigonol?' Roedd yn credu fod pobl wedi derbyn y rhesymeg am beidio â manylu ar hyn ar hyn o bryd.

[**Crynodeb:** Trafodwyd y strategaeth i hyrwyddo safbwynt S4C yn gyhoeddus ac ymhlith y gwleidyddion.]

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod rhyngddo ef ac IHJ ac Ed Richards, Prif Weithredwr Ofcom.

[**Crynodeb:** Yna, trafododd yr Awdurdod effaith unrhyw doriadau pellach ar y polisi comisiynu. Gobeithir gweithredu mewn modd a fydd yn rhoi rhybudd o flwyddyn neu flwyddyn a hanner i'r sector o unrhyw newidiadau.]

[**Crynodeb:** Nodwyd prinder y cyfeiriadau at weithgareddau masnachol S4C yn y ddogfen a thrafodwyd os oes angen mwy o sylw cyhoeddus i'r strategaeth newydd.]

#### 5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

**Nominet** (AE wedi datgan diddordeb)

Nodwyd y bydd Nominet yn lansio dot Cymru/dot Wales ym mis Medi gydag ymgyrch farchnata. Roedd yna fanteision amlwg o fod yn rhan o'r ymgyrch lansio fel un o'r partneriaid cyntaf ac roedd IHJ yn argymhell bod S4C yn mabwysiadu S4C.cymru ond hefyd yn cofrestru S4C.wales ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol.

Roedd Nominet yn trafod cyhoeddi lansiad y ddau barth newydd yn adeilad S4C yn ystod y Sioe Frenhinol. Nodwyd ei fod yn bwysig fod S4C ar y brig yn y grŵp cyntaf i fabwysiadu'r parth .cymru.

Holwyd beth oedd cost y ddau barth newydd i S4C, ac atebodd IHJ nad oedd yn credu fod yna gost ynghlwm gyda'u cofrestru.

Cymeradwyodd yr Awdurdod yr argymhelliad.

## 6. **Risgiau Corfforaethol**

Cyflwynodd KM yr adroddiad Risgiau Corfforaethol diwygiedig, a nodwyd bod y rhestr yn cynnwys 13 o risgiau yn hytrach na'r 10 gwreiddiol. Roedd swyddogion wedi penderfynu cynnwys yr holl risgiau corfforaethol yn yr adroddiad.

Nododd IHJ fod y ddogfen yn cael ei hadolygu'r gyson gan y Tîm Rheoli.

Nodwyd nad oedd risg yn ymwneud ag enw da S4C ar y rhestr bellach, a bod y Tîm Rheoli wedi ystyried hyn a phenderfynu bod risg i enw da ynghlwm â phob risg strategol.

Cafwyd trafodaeth am nifer o risgiau penodol.

Esboniodd RhT fod yr Adroddiad Blynyddol hefyd wedi datblygu yn ddiweddar i gynnwys mwy o wybodaeth am berfformiad y gwasanaeth a'r corff a bod yr adroddiad yn mynd ymhellach na gofynion penodol DCMS o ran cyflwyno gwybodaeth.

Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Archwilio ystyried y systemau perthnasol yn eu cyfanrwydd a sicrhau bod sgôp gwaith PWC yn berthnasol i ofynion yr Awdurdod.

[**Crynodeb:** Yn dilyn trafodaeth am yr ochr fasnachol penderfynwyd gofyn i'r Bwrdd Masnachol ystyried sut i gyflwyno rhagor o wybodaeth i'r Awdurdod ac awgrymwyd cyflwyniad pellach gan DB.]

Cyfeiriwyd at risg 250 yn ymwneud ag adleoli a chydleoli ac esboniwyd bod gan PDDS a'r BBC gofrestrau risg penodol ar gyfer y prosiect adleoli a'r prosiect cydleoli, ond bod S4C yn cadw un gofrestr gyfansawdd o risgiau sy'n berthnasol i S4C ac sy'n deillio o'r ddau brosiect. Bydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried cynnwys y gofrestr yn rheolaidd.

## 7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

Cyflwynodd DRh ei adroddiad gan wahodd sylwadau gan yr Aelodau.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am y ddarpariaeth o **Eisteddfod yr Urdd, Band Cymru a Cariad@Iaith.**]

## 8. **Cofnodion Pwyllgor Cynnwys**

Nodwyd fod y rhain wedi cael eu cylchredeg ar ffurf drafft er gwybodaeth i'r Aelodau. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 9. **Adroddiad yr Adran Ddadansoddi**

Nodwyd cynnwys yr adroddiad a'r bwriad i drafod y manylion yn llawnach yn y cyfarfod chwarterol.

## 10. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu

### 10.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad.

Dyweddodd fod cynllun hyrwyddo **Madron** wedi gweithio'n dda. Hefyd, bod sioe **Cyw** yn Eisteddfod yr Urdd wedi gweithio'n dda iawn, gyda miloedd am fynychu'r sioeau, yn enwedig ar y dydd Llun. Nodwyd y byddai'n rhaid adolygu'r drefn er mwyn osgoi siomi rhieni a phlant yn y dyfodol.

Roedd **Y Gwyll/Hinterland** wedi derbyn sylw cadarnhaol iawn yn gyffredinol. Roedd gwaith ar y gweill gyda chwmni PR i gynnal y momentwm.

[**Crynodeb:** Trafodwyd elfennau masnachol Y Gwyll/Hinterland.]

### 10.2 Gweithgareddau yn y Sioe Frenhinol

Roedd GLL yn gobeithio trefnu sesiwn 'Noson gyda Dai Jones' - nid i'w darlledu – gan wahodd tua 100 o bobl i adeilad S4C yn y Sioe. Roedd bwriad i drefnu sesiwn gyda phobl ifanc a derbyniad hefyd.

Ymddiheurodd na fu'n bosibl cynnal Noson Gwylwyr hyd yma a nodwyd y posibilrwydd o gynnal cyfarfod yr Awdurdod yn y Gogledd ym mis Medi i gyd-fynd â Noson Gwylwyr yn Rhuthun ar yr 17eg o Fedi.

### 10.3 Cyfarfod Adleoli

[**Crynodeb:** Trafodwyd y camau nesaf gyda'r partneriaid.]

Bydd GLL yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod ar ddatblygiadau yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

## 11. Adroddiad Ariannol

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd nad oedd unrhyw beth i'w ychwanegu i'r adroddiad ysgrifenedig.

## 12. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 13. Adroddiad Gwifren Gwylwyr

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd adroddiad Gwifren.]

## 14. System ddi-bapur

Trafodwyd yr argymhelliad i gyflwyno system ddi-bapur *Huddle* ar gyfer papurau'r Awdurdod.

Cymeradwydd yr Awdurdod yr argymhelliad i symud i system ddi-bapur.

15. **Rhaglen Waith yr Awdurdod**

Bydd argymhellion newydd yn cael eu trafod mis nesa. Holwyd pam nad oedd cyfarfodydd y Bwrdd Masnachol yn cael eu nodi yn Rhaglen Waith yr Awdurdod a chytunwyd nad oedd rheswm i hyn beidio â digwydd.

Nododd PW fod trafodaethau eisoes wedi dechrau ynglŷn â'r adroddiad interim nesaf ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC y byddai angen adrodd arno yn Hydref/Tachwedd ac y byddai'r rhaglen waith ddiwygiedig yn ystyried gofynion amser yr adroddiad.

16. **Cyfarfodydd Nesaf**

Gofynnwyd i BCW fwrw ymlaen â'r gwaith o drefnu cyfarfodydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn nesa.

17. **Unrhyw Fater Arall**

[**Crynodeb:** Trafodwyd rhaglenni sy'n dathlu achlysuron neu ddigwyddiadau mawr neu'n ymateb i newyddion y dydd. Awgrymwyd y dylid ystyried a oes rheidrwydd bob tro i ddarlledu pan fydd eraill yn darparu oriau helaeth. Ar y llaw arall, ni chafwyd rhaglenni penodol am yr etholiadau Ewropeaidd ac efallai bod cyfle weithiau i S4C ymestyn cyrhaeddiad wrth danlinellu pwysigrwydd plwraliaeth. Er ei fod yn amhosibl llunio polisi cyfansawdd, gofynnir i'r Pwyllgor Cynnwys drafod y mater ymhellach.]

18. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – dydd Iau, Gorffennaf 10fed, 2014